Adroddiad i'r:	Pwyllgor Cynllunio
Dyddiad y cyfarfod	6 Hydref 2021
Aelod /Swyddog Arweiniol	Y Cynghorydd M Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel
Awdur yr Adroddiad	Karsten Brußk, Swyddog Cynllunio
Teitl	Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 - 2021: Adroddiad Monitro Blynyddol 2021

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn sôn am Gynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021 (CDLl): Adroddiad Monitro Blynyddol 2021.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi gwybod i'r Aelodau am gynnwys Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl (AMB) 2021 cyn cyhoeddi dogfennau ar wefan y Cyngor a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2021.

2.2. Adrodd ar y cynnydd o ran gweithredu'r CDLl mabwysiedig.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys AMB 2021, gweler Atodiad 1.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Cyflwynir Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 - 2021: Adroddiad Monitro Blynyddol 2021 ar ffurf Drafft, gweler Atodiad 1, oherwydd bod y Swyddog yn aros am y cyfieithiad Cymraeg, ac yn cwblhau cynllun y ddogfen i gydymffurfio â'r meini prawf hygyrchedd i'w cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

4.2. Mae Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMB) yn offeryn pwysig i asesu effeithiolrwydd polisi lleol wrth gefnogi Strategaeth ac Amcanion y CDLl, a oedd bod i gyflawni Gweledigaeth y CDLl o sut y dylai Sir Ddinbych fod yn 2021. Mae Adroddiad Monitro Blynyddol 2021 yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, a hi yw'r seithfed ddogfen sydd wedi'i chynhyrchu ers mabwysiadu'r CDLl yn 2013.

4.3. Daeth 'Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040' a 'Polisi cynllunio Cymru' diwygiedig nid yn unig â newidiadau i bolisi cenedlaethol ond cyflwynwyd Cynllun Datblygu ar y lefel genedlaethol. Ers i'r ddwy ddogfen gael eu cyhoeddi ym mis Chwefror 2021, mae'n parhau i fod yn ansicr ar adeg cynhyrchu'r AMB 2021 (Awst 2021) sut y bydd y newidiadau hynny'n dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau yn lleol ac, wedi hynny, canlyniad monitro polisi lleol yn y dyfodol.

4.4. Cafodd yr achosion o'r firws 'SARS-CoV-2' ym mis Mawrth 2020 effaith ar gasglu ac argaeledd data. Mae awdurdodau lleol a chyrff cenedlaethol wedi canolbwyntio'r holl adnoddau sydd ar gael ar ddelio â'r pandemig yn hytrach na pharhau â 'busnes fel arfer'. Felly, ni all AMB 2021 ddarparu asesiad o bob dangosydd polisi lleol neu Amcan Gwerthuso Cynaliadwyedd.

4.5. O'i gymharu â chanlyniadau blynyddoedd blaenorol, ni fu newid ym mherfformiad cyffredinol polisïau unigol. Amlygwyd sawl polisi lleol i'w hadolygu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac maent yn gysylltiedig ag elfennau strategol Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych fel, cwrdd â'r gofyniad annedd blynyddol cyfartalog o 500 uned. Bydd y polisïau lleol hyn, gweler tabl 1 isod, yn parhau i gael eu hamlygu nes eu bod yn cael eu disodli neu eu diwygio fel rhan o broses adolygu'r CDLl.

4.6. Tabl 1: Polisïau lleol y mae'n rhaid iddynt fod yn destun adolygiad

Polisi Lleol	Sylw
CCC 1 – Diwallu anghenion tai'r Sir.	Fel y nodwyd yn Adroddiad Adolygu'r CDLl (2017), mae Strategaeth Twf y CDLl a darparu tai'r farchnad a thai fforddiadwy yn methu ar y cyflenwad (mathemategol) gwael o anheddau. Cafodd targedau cyflenwi eu gosod ar sail ffigyrau 'Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd' Llywodraeth Cymru sydd, fe
CCC 4, 8, 9 – Cynyddu nifer yr anheddau fforddiadwy a adeiladir yn y Sir.	

	ymddengys, yn or-amcangyfrifon mawr. Mae'r Strategaeth a Ffefrir Ddrafft ar gyfer y CDLl nesaf 2018 – 2033 yn nodi ffigwr blynyddol o 218 o unedau; o'i gymharu â 750 uned ar gyfer Cyfnod 3 yn y CDLl a fabwysiadwyd. Bydd y polisïau hyn yn cael eu hamlygu fel rhai sy'n 'tanberfformio' nes bo'r Strategaeth CDLl wedi'i hadolygu'n llwyddiannus, h.y. mabwysiadu CDLl newydd. Fodd bynnag, dylid nodi bod y Cyngor yn darparu tai fforddiadwy mewn nifer o ddulliau eraill heblaw am y CDLl. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, defnyddio grantiau tai cymdeithasol i roi cartrefi gwag mewn defnydd eto a gweithio gyda'n partneriaid tai.
CCC 10 – Diwallu anghenion Sipsiwn a Theithwyr	Cynhaliodd y Cyngor Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar 28 Mawrth 2017. Rhaid cynnal Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (AALlST) newydd a'i gyflwyno i LlC erbyn Chwefror 2022. Dechreuwyd ar y gwaith ar y AALlST newydd ym mis Awst 2021 ac mae'r gwaith arolwg yn mynd rhagddo.
PSE 6, PSE 8, PSE 9 – Cynnal a gwella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi.	Cyflwynodd Dyfodol Cymru - Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021) a Pholisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 11 (2021) newid mewn polisi cenedlaethol o ran egwyddor datblygu canol tref; mynd i'r afael â'r dirywiad mewn defnyddiau manwerthu trwy gyflwyno defnyddiau cyflenwol. Mabwysiadwyd polisi lleol yn 2013, ac maent yn canolbwyntio'n bennaf ar amddiffyn manwerthu lle ystyriwyd bod cynnydd mewn defnyddiau heblaw manwerthu yn negyddol.
CCC 5 – Cyflwyno'r Safle Strategol Allweddol.	Daeth y caniatâd cynllunio amlinellol i ben ym mis Mawrth 2021.

4.7. Os oes gan Aelodau ymholiad neu os ydynt am drafod adrannau unigol o'r Adroddiad Monitro Blynyddol, cysylltwch â'r tîm Cynllunio Strategol a Thai dros y ffôn: 01824 706916 neu e-bostiwch: 'Planningpolicy@denbighshire.gov.uk'

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid oes angen penderfyniad ar gyfer yr eitem hon. Fodd bynnag mae Cynllun Datblygu Lleol CSDd yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol canlynol trwy nodi ble a faint o ddatblygiadau newydd a fydd yn digwydd yn y Sir hyd at 2021: Datblygu'r economi lleol; Sicrhau mynediad at dai o safon uchel; a Moderneiddio'r Cyngor i ddarparu arbedion effeithlonrwydd a gwellagwasanaethau i'n cwsmeriaid.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Ni fydd nodi cynnwys yr adroddiad hwn yn arwain at unrhyw gostau nac effeithiau i wasanaethau eraill.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes Asesiad o'r Effaith ar Les wedi'i gynnal oherwydd na cheisir penderfyniad am bolisi, strategaeth, gweithdrefnau gweithio na rhaglen y Cyngor. Gofynnir i Aelodau nodi'r cynnwys yn unig. Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn ddogfen ystadegol sy'n adlewyrchu perfformiad polisi lleol fel rhan o'r CDLl sydd wedi'i fabwysiadu.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Bydd aelodau'r Grŵp Cynllunio Strategol (GCS) yn trafod AMR Drafft 2021 ar 20 Medi 2021. Nid yw'n bosibl adrodd yn ôl o'r cyfarfod oherwydd bod y dyddiad cau ar gyfer adroddiadau i'r Pwyllgor Cynllunio ym mis Hydref 2021 cyn i'r cyfarfod GCS gael ei gynnal.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw oblygiadau cyllidebol yn codi o Adroddiad Monitro Blynyddol CDLl 2021

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â nodi cynnwys AMB 2021.

11. Pwer I wneud y penderfyniad

11.1. Nid oes angen penderfyniad ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae'r ddyletswydd statudol i gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol wedi ei osod yn Adran 76 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Mae Rhan 7 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 yn nodi'r gofyniad i gyflwyno'r AMB terfynol i Lywodraeth Cymru